Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Hawdd ei Ddeall

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud dros y pum mlynedd diwethaf

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **"Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Ar Gipolwg"**.

Gorffennaf 2020

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair. Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 24.**

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn. meddwl **Swyddog Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan:

Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd
Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol y Santes Fair
Caerdydd, CF10 1AT

Ffôn: 0292 167 7400

Gwefan: www.futuregenerations.wales/cy

E-bost: contactus@futuregenerations.wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....2

Ynglŷn ag Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.....4

Gwneud yn siŵr bod y ddeddf yn cael ei dilyn.....6

Rhan 1: Gwneud newidiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus.....6

Ble rydyn ni ar hyn o bryd?.....10

Rhan 2: Rôl Llywodraeth Cymru mewn gwneud yn siŵr bod y Ddeddf yn cael ei dilyn.....13

Ble rydyn ni ar hyn o bryd?.....15

Rhoi'r Ddeddf ar waith.....17

Gweithio Gyda'n Gilydd.....18

Rhan 3: Nodau lles.....20

Beth sy'n digwydd nesaf?.....22

Geiriau anodd.....24

Ynglŷn ag Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru**.

Mae’n rhaid i’r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu bob pum mlynedd.

Mae’n dweud wrth **gyrff cyhoeddus** beth sydd arnyn nhw angen ei wneud i helpu i wella lles pobl.

Mudiadau yw **cyrff cyhoeddus** sy’n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er enghraifft y GIG a gwasanaethau tân ac achub.

Cafodd **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** eu cychwyn ym mhob ardal o Gymru i helpu cyrff cyhoeddus i weithio gyda’i gilydd.

Mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn gwneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i wella lles yng Nghymru.



Mae'r adroddiad hwn yn siarad am yr holl waith da sydd wedi cael ei wneud.

Ond hefyd sut y gall pethau gael eu gwneud yn well.



Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall o'n hadroddiad sy'n cael ei alw'n A**droddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Ar Gipolwg**. Mae hwn yn fersiwn mwy byr o'n prif adroddiad ni.

Gwneud yn siŵr bod y ddeddf yn cael ei dilyn

Rhan 1: Gwneud newidiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r gwaith rydyn ni'n wneud wedi'i seilio ar ddeddf sy'n cael ei galw'n **Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**. Byddwn yn galw hon yn **y Ddeddf** yn y ddogfen hon.

Mae'r **Ddeddf** yn ymwneud â gwella lles pobl Cymru.

Rydyn ni'n meddwl bod ar gyrff cyhoeddus angen meddwl ynglŷn â gwneud newidiadau mawr i'r ffordd y maen nhw'n gweithio. A gweithio'n well gyda phobl eraill.

Gall gwneud newidiadau sy'n para gymryd llawer o amser.

Dylai cyrff cyhoeddus:

- Gynllunio ar gyfer y dyfodol a gweithio gyda mudiadau eraill a phobl yn eu cymunedau nhw.

- Ysgrifennu cynlluniau newydd sy'n helpu i wella lles pobl.

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan yn llwyr yn eu gwaith nhw.

- Edrych yn ofalus ar eu gwaith nhw.

- Gweithio gyda phobl i weld a oes problemau'n debygol o godi cyn iddyn nhw ddigwydd.

- Gweithio gyda'i gilydd yn well i helpu i wneud yn siŵr bod y cynlluniau ar gyfer lles yn cael eu cwrdd.

- Ei gwneud hi'n glir sut y byddan nhw'n cwrdd â'u nodau lles nhw.

- Dangos sut y bydd cynlluniau lles yn gweithio gyda chynlluniau nawdd ac arian.

- Dangos sut y maen nhw'n meddwl am **y Ddeddf** ym mhob un o'u cynlluniau nhw.

- Gwneud yn siŵr bod eu gwaith nhw'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf y gallan nhw.

- Cael swm arbennig o arian ar gyfer gwella lles.

- Cefnogi staff i ymwneud mwy â'r gwaith.

- Gwneud yn siŵr bod staff yn cael yr hyfforddiant iawn i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn gyda'r gwaith.

- Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifainc yn cymryd rhan.

- Meddwl am y dyfodol a cheisio rhwystro problemau rhag digwydd.

- Gweld pa mor dda y mae'r gwaith ar y nodau lles yn mynd.

- Gwneud yn siŵr bod digon o newidiadau yn digwydd er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn i les pobl yn y dyfodol.

Ble rydyn ni ar hyn o bryd?

Mae rhai newidiadau pwysig iawn wedi cael eu gwneud gan wahanol gyrff cyhoeddus oherwydd **y Ddeddf**.

Er enghraifft, mae Cyngor Sir Fynwy wedi cychwyn **fferm haul**. Yn y fan hon mae panelau arbennig yn troi ynni o'r haul yn drydan.

Bydd hyn yn helpu i wella'r **amgylchedd**. Er mwyn iddo fo fod yn dda i iechyd a lles pobl.

Yr **amgylchedd** yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer a phopeth sy'n byw arnyn nhw ac ynddyn nhw. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

Hefyd mae mudiadau yn gweithio gyda'i gilydd llawer mwy.

Ond y cam nesaf yw iddyn nhw rannu **adnoddau**.

Mae **adnoddau** yn bethau defnyddiol sydd gennym ni neu bethau rydyn ni'n berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.

Hefyd, mae ar fwy o bobl angen cael y cyfle i fod yn rhan o waith cyrff cyhoeddus.

Mae'n rhaid i les pobl a bod yn garedig i'n gilydd fod yn rhan bwysig o'n cynlluniau ni i gyd.

Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn dilyn **y Ddeddf**. Ond mae mwy o waith angen ei wneud yn awr i ddilyn **y Ddeddf** yn llawnach.

Mae rhai rhesymau sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd i gyrff cyhoeddus wneud newidiadau. Er enghraifft, oherwydd nad oes ganddyn nhw ddigon o arian.

Mae ar **Lywodraeth Cymru** angen gweithio'n wahanol i'w gwneud hi'n haws i gyrff cyhoeddus wneud adroddiad o'u gwaith nhw.

Mae arnyn nhw angen meddwl mwy am gynlluniau tymor hir a newidiadau.

Mae cyrff cyhoeddus yn gwneud newidiadau ond dydy hyn ddim yn digwydd ar draws pob un o'u gwasanaethau nhw. Mae ar hyn angen gwella.

Mae cyrff cyhoeddus yn meddwl mwy am eu cynlluniau tymor hir nhw ar gyfer y dyfodol. Ond mae angen gwneud mwy o waith yma.

Ac mae angen gwneud mwy o waith i helpu i rwystro problemau rhag digwydd.

Mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn gweithio gyda'i gilydd fwy nag erioed o'r blaen.

Ond mae angen gwneud mwy o waith i weithio gyda'i gilydd yn well.

Gall mwy o waith gael ei wneud i gynnwys staff cyrff cyhoeddus. Ac i wneud yn siŵr y gallan nhw wneud gwahaniaeth.

Rhan 2: Rôl Llywodraeth Cymru mewn gwneud yn siŵr bod y Ddeddf yn cael ei dilyn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan fawr yn y pethau y mae mudiadau eraill yn eu gwneud. Bydd cyrff cyhoeddus yn dilyn beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

Mae ar Lywodraeth Cymru angen:

- Arwain y ffordd fel bo pobl eraill yn gallu dilyn.

- Ei gwneud hi'n haws dilyn **y Ddeddf**.

- Bod yn fodlon gweithio mewn ffyrdd newydd.

- Edrych ar ddefnyddio nawdd ar gyfer lles yn unig.

- Gosod esiampl ar gyfer bod yn garedig.

- Gweithio i rwystro problem rhag digwydd yn y lle cyntaf. A dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau anodd.



- Gwneud cynllun tymor hir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

- Rhoi mwy o nawdd i wneud yn siŵr y gall **y Ddeddf** gael ei rhoi ar waith.

- Edrych pa mor dda mae gwasanaethau yn ei wneud trwy edrych ar les.

- Rhoi canllawiau i gyrff cyhoeddus er mwyn iddyn nhw fedru gweithio mwy gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod lles yn cael ei wella.

Ble rydyn ni ar hyn o bryd?

Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i wneud i'r **Ddeddf** ddigwydd. Ond mae llawer mwy angen ei wneud.

Er enghraifft, mae'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, wedi penderfynu rhoi'r gorau i gynlluniau i adeiladu Ffordd Liniaru'r M4. Mae hyn yn cefnogi'r **Ddeddf**.

Mae newidiadau i'r system addysg wedi edrych mwy ar les.

Mae adeiladu cartrefi newydd yng Nghymru erbyn hyn wedi'u seilio mwy ar les pobl.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o waith i helpu gyda'r amgylchedd.

Er enghraifft, fel helpu mwy o bobl i ddefnyddio **cerbydau trydan** yng Nghymru. Mae cerbydau trydan yn bethau fel ceir sy'n defnyddio trydan yn lle petrol neu ddiesel.

A chefnogi pobl i ofalu am natur yn eu cymunedau nhw.

Mae llawer mwy y gallai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud. Er enghraifft, gallai'r rheolau sy'n ymwneud â nawdd fod yn well.

Hefyd mae ar Lywodraeth Cymru angen meddwl mwy ynghylch rhoi **caredigrwydd** yn ganolbwynt i'r holl waith maen nhw'n wneud. Fel Llywodraeth yr Alban.

Rhoi’r Ddeddf ar waith

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rheolau a deddfau newydd sy’n meddwl am **y Ddeddf**.

Ond dydyn nhw ddim wedi dod i ddeall faint o waith mae’n ei gymryd i’w rhoi nhw ar waith go iawn.

Mae angen mwy o nawdd yma.

Hefyd, nid yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon o waith gyda **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**. Mae arnyn nhw angen gweithio mwy gyda nhw.

Mae ar Lywodraeth Cymru angen meddwl am y math o iaith a geiriau sy’n cael ei ddefnyddio yn **y Ddeddf**. Mae arnyn nhw angen defnyddio yr un math o iaith a geiriau yn eu holl waith nhw.

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi nawdd, mae arnyn nhw angen edrych a ydyn nhw wedi meddwl am **y Ddeddf**.

Gweithio gyda'i gilydd

Mae ar Lywodraeth Cymru angen meddwl mwy am y dyfodol. A'r math o Lywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus y bydd ar Cymru eu hangen yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall llawer mwy nag o'r blaen ei bod hi'n bwysig bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae angen gwneud gwaith i ddangos sut y bydd hyn yn digwydd mewn bywyd go iawn.

Mae llawer o wasanaethau wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd yn ystod y coronafeirws. Mae angen dal ati â'r ffordd hon o weithio.

Mae ar wasanaethau angen gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr eu bod nhw'n dod o hyd i'r ffyrdd gorau o ddatrys problemau. Ac i rwystro problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Fe hoffen ni petai gan **Lywodraeth Cymru Weinidog Atal** i wneud y math hwn o waith. Mae hon yn rôl newydd. Rydyn ni'n meddwl y dylai fod gan Lywodraeth Cymru rôl fel hon.

Mae peth gwaith da rhwng gwasanaethau cyhoeddus yn digwydd. Er enghraifft, mae iechyd ac addysg yn gweithio gyda'i gilydd i wella iechyd meddwl plant.

Ond weithiau mae'n anodd i adrannau weithio gyda'i gilydd oherwydd y ffordd maen nhw wedi'u trefnu.

Rhan 3. Nodau lles

Yng Nghymru y mae saith o nodau lles. Dylai pob gwasanaeth cyhoeddus fod yn gweithio tuag at eu cyrraedd.

Mae'r saith nod yn ymwneud â gwneud gwelliannau i bethau fel:

- Iechyd
- Yr amgylchedd
- Cydraddoldeb
- Cymunedau

Mae peth cynnydd wedi'i wneud gan gyrff cyhoeddus ym mhob un o'r nodau.

Ond weithiau nid yw hi'n glir beth sy'n cael ei wneud ganddyn nhw.

Mae cyrff cyhoeddus yn meddwl mwy am ffyrdd y gallan nhw gwrdd â'r nodau.

Yn gyffredinol, mae ar gyrff cyhoeddus angen meddwl llawer mwy am ffyrdd y gallan nhw ddefnyddio'r nodau lles i wneud newidiadau mawr. Nid y newidiadau hawdd yn unig.

Beth sy’n digwydd nesaf?

Mae’r coronafeirws wedi cael effaith mawr ar bobl dros y byd i gyd.

Ac mae wedi rhwystro’r adroddiad hwn a’r cynlluniau ynddo fe rhag ymddangos.

Ni fydd cyrff cyhoeddus yn medru ymateb yn syth i’r adroddiad hwn oherwydd hyn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ond mae ar Lywodraeth Cymru angen gwneud yn siŵr bod y cyngor yn yr adroddiad hwn yn cael ei ddilyn.



Mae’r adroddiad hwn yn siarad am yr holl waith sydd wedi cael ei wneud yn y pedair blynedd diwethaf a beth sydd angen digwydd nesaf.

Dylai gael ei ddefnyddio i gyfarwyddo gwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i edrych ar waith y cyrff cyhoeddus.

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod pobl Cymru a mudiadau yn dal i gael eu cynnwys yn yr holl waith hwn.

Ac i gefnogi cyrff cyhoeddus i ddilyn y cyngor yn yr adroddiad hwn.

Mae arnon ni hefyd angen meddwl am y coronafeirws a'r effeithiau y gallai fo ei gael ar Gymru.

Geiriau anodd

Adnoddau

Mae adnoddau yn bethau defnyddiol sydd gennym ni neu bethau rydyn ni'n berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.

Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer a phopeth sy'n byw arnyn nhw ac ynddyn nhw. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

Cyrff cyhoeddus

Mudiadau yw cyrff cyhoeddus sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er enghraifft y GIG a gwasanaethau tân ac achub.